

Cyflawni'r gorau i bobl ifanc sy'n gadael gofal



# BREUDDWYDION CUDD

ymrwymiad Cymru i  
**bobl ifanc sy'n**  
**gadael gofal**



Mae angen i **ymadawyr**  
**gofal gael** yr un math o  
**gyfleoedd, cymorth** a  
**chefnogaeth** ag y mae  
pob rhiant yn ceisio'u rhoi  
i'w plant wrth iddyn nhw  
ddechrau dod o hyd i'w  
**ffordd yn y byd.**

# BREUDDWYDION CUDU

ymrwymiad Cymru i bobl ifanc sy'n gadael gofal

**Mae Comisiynydd Plant Cymru** yn credu y dylai pob **person ifanc gael cyfle cyfartal** i fod y gorau gallan nhw fod wrth iddyn nhw **dyfu'n oedolion.**

Mae gan bob plentyn a pherson ifanc hawliau fel rhan o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) i fod yn ddiogel, i'r gofal cywir, ac i dderbyn addysg sy'n eu helpu i gyrraedd eu potensial llawn.

Dylai ymrwymiad Cymru i bobl ifanc sy'n gadael gofal cynnwys **rhywle diogel i fyw, cynnig gweithredol o ran addysg, gwaith neu hyfforddiant, a chefnogaeth gymdeithasol, ariannol ac emosïynol barhaus.** Mae'r rhain **yn bethau rhesymol iawn** i bob person ifanc ddisgwyl eu derbyn gan eu rhieni wrth iddyn nhw **bontio i oedolaeth,** a dylai'r un peth fod yn wir am bobl ifanc sy'n gadael gofal.



Mae gan bobl ifanc sy'n gadael gofal yr un breuddwydion â phobl ifanc eraill, ond mae'r breuddwydion yma yn gudd ac yn methu cael eu gwireddu pan does dim cefnogaeth deuluol gan y bobl ifanc.

## **Yn yr adroddiad sbotolau hwn, mae Sally Holland, y**

**Comisiynydd Plant,** yn gofyn i'r Llywodraeth genedlaethol a lleol, elusennau a mentrau preifat addo rhoi eu cefnogaeth i wireddu dyheadau pobl ifanc sy'n gadael gofal. Mae'r Comisiynydd am sicrhau bod pobl ifanc sy'n gadael gofal yn cael yr un disgwyliadau o ran gofal a chefnogaeth â'u cyfoedion.

Yn dilyn ei hapwyntiad gofynnodd llawer o wahanol grwpiau o bobl, gan gynnwys ymadawyr gofal, i'r Comisiynydd Plant ystyried sut gallai'r symud i oedolaeth gael ei symleiddio, fel un o flaenoriaethau ei gwaith yn ystod y tair blynedd nesaf. Yn 2016, gwrandawodd y Comisiynydd i bobl ifanc sy'n gadael gofal o bob rhan o Gymru, a chynhaliwyd arolwg ym mhob awdurdod lleol i gael gwybod am y cyfleoedd maen nhw'n eu darparu ar hyn o bryd.

Ar hyd y flwyddyn, mae'r Comisiynydd a'i thîm wedi clywed am awydd pobl ifanc sy'n gadael gofal i weithio mewn amrywiaeth eang o wahanol swyddi a sectorau ond maen nhw hefyd wedi sôn wrthi am y problemau maen nhw wedi'u hwynebu wrth gael mynediad i gyfleoedd. Mae'r rhain yn cynnwys rhwystrau ariannol, diffyg gwybodaeth a chefnogaeth i ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol i gael mynediad i fyd gwaith. **Cododd tair**

**enghraifft o anghydraddoldeb** yn arbennig mewn nifer o sgysiau, sef:

- Pobl ifanc yn cael eu symud allan o ofal maeth neu ofal preswyl cyn gynted ag y byddan nhw'n 18 oed, hyd yn oed os yw hynny yng nghanol blwyddyn astudio bwysig fel lefel A.
- Dyw trefniadau byw ôl-18, 'Pan Fydda i'n Barod', ddim yn caniatáu i bobl ifanc aros yn eu cartref gofal preswyl ar ôl cyrraedd 18 oed, yn wahanol i bobl ifanc mewn gofal maeth.
- Mae'r gefnogaeth i ymadawyr gofal yn dod i ben yn 21 oed, oni bai bod y person ifanc mewn addysg neu hyfforddiant, er bod yr rhai sydd ddim mewn addysg neu hyfforddiant yn fwy tebygol o angen cefnogaeth.

Mae'r Comisiynydd wedi trafod y tair enghraifft o anghydraddoldeb gyda Llywodraeth Cymru, ac yn falch bod y Llywodraeth wedi cytuno i weithio tuag at eu chwalu.

Mae rhywle diogel i fyw a chefnogaeth emosiynol neu ymarferol yn mynd law yn llaw â chael mynediad i gyfleoedd. Allwn ni ddim disgwyl i'r rhai sy'n gadael gofal – sy'n gallu bod mor ifanc ag 16 – gyflawni eu breuddwydion os byddan nhw'n pryderu ynghylch ble maen nhw'n mynd i fyw, sut byddan nhw'n talu'r biliau, neu sut gallan nhw gael gwybod pa gymorth sydd ar gael iddyn nhw. Mae angen i ymadawyr gofal gael yr un math o gyfleoedd, cymorth a chefnogaeth ag y mae pob rhiant yn ceisio'u rhoi i'w plant wrth iddyn nhw ddechrau dod o hyd i'w ffordd yn y byd.

Mae llai na 500 o bobl ifanc yn gadael gofal yng Nghymru pob blwyddyn. Wrth droi'n 19, dyw 43% ddim mewn hyfforddiant, addysg na gwaith<sup>1</sup>. Mae'r bobl ifanc yma wedi rhannu gyda'r Comisiynydd eu breuddwydion uchelgeisiol.

Mae'r Comisiynydd Plant wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) i edrych ar ffyrdd posibl o helpu ymadawyr gofal i gyflawni eu breuddwydion cudd. I gloi'r adroddiad hwn mae cyfres o gamau gweithredu a fydd, o'u gwireddu, yn sicrhau bod Cymru'n yn wlad sy'n wir yn

**galluogi pob person ifanc i fod y gorau gallan nhw fod.**

# CEFNDIR

Nodwyd **'pontio' i oedolaeth** fel maes blaenoriaeth i Gomisiynydd Plant Cymru ei ddatblygu, trwy Arolwg Beth Nesa? |What Next? yn ystod 2015. Mae hyn yn gallu cael ei grynhai mewn dyfyniad gan Uwch Weithiwr Pontio fel rhan o ganfyddiadau'r arolwg

**"dim ond rhif yw 18 ym mywyd y bobl ifanc, mae eu hanghenion yn dal yr un fath".**

## 2015

Yn ystod ymweliad â Chymru ym mis Medi 2015 i weld sut mae hawliau plant a phobl ifanc yn cael eu diogelu a'u cynnal yn y Deyrnas Unedig, bu cynrychiolydd o Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn siarad â phobl ifanc o Gymru oedd mewn gofal, a soniodd wrthi fod angen cefnogaeth ymarferol, emosiynol ac ariannol wrth bontio i annibyniaeth, yn ogystal â chynlluniau llwyddiannus i hyfforddeion sydd ar gael trwy rai Awdurdodau Lleol, ond nid y cyfan. Cyhoeddodd Pwyllgor y CU eu hadroddiad, sef eu Sylwadau Terfynol, fel maen nhw'n cael eu galw, ym mis Mehefin 2016 gan nodi y dylai partion gwladol y Deyrnas Unedig 'hysbysu plant ac ymgynghori â nhw'n gynnar ynghylch cynlluniau gofal a phontio ar eu cyfer, a darparu cefnogaeth ddigonol i ymadawyr gofal, gan gynnwys ar gyfer llety, cyflogaeth neu addysg bellach'.

Mae gan Awdurdodau Lleol yng Nghymru ddyletswyddau statudol tuag at Ymadawyr Gofal o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn cynnwys dyletswydd i dalu sylw dyledus i CCUHP wrth ddarparu gwasanaethau. Mae'r dyletswyddau'n cynnwys asesu anghenion person ifanc, gan gynnwys anghenion addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth, a darparu llety. Mae pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol wedi adrodd bod y darlun yn gymysg o ran yr opsiynau tai sydd ar gael iddynt a'r cyfleoedd i gael mynediad i waith neu ddysgu addas o 16+ ymlaen.

## 2016

Yn ystod 2016 fe gynhalion ni dri digwyddiad i ymgynghori â phlant mewn gofal ac ymadawyr gofal ynghylch tai, cefnogaeth ac anghenion addysg neu hyfforddiant. Bu digwyddiadau yn ne a gogledd Cymru yn ystod yr haf, gyda digwyddiad cenedlaethol yn dilyn ym mis Hydref 2016. Fe wnaethon ni ymgysylltu â mwy na 100 o bobl ifanc o bob rhan o Gymru, yn ogystal â'u cynghorwyr personol, i gael gwybod beth oedd yn bwysig iddyn nhw a beth oedd ddim yn gweithio'n dda ar hyn o bryd.

Yn ystod hydref 2016 fe gynhalion ni arolwg ar-lein a gwahodd cynrychiolydd o bob awdurdod lleol i ddweud wrthyn ni beth maen nhw'n ei gynnig ar hyn o bryd fel hyfforddiant mewnol neu brofiad gwaith i'w pobl ifanc sydd mewn gofal a'u hymadawyr gofal. Ymatebodd pob un o'r 22 awdurdod lleol i'r arolwg, ac rydyn ni'n cyfeirio at y canlyniadau yn yr adroddiad sbotolau hwn, ond hefyd mae graffeg gwybodaeth, 'infographic', ar gael ar ein gwefan sy'n crynhai'r ymatebion.

Rydyn ni hefyd wedi ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio gydag ymadawyr gofal ar hyd y flwyddyn, ac wedi edrych ar yr hyn sy'n cael ei gynnig i ymadawyr gofal yn Lloegr a'r Alban fel rhan o'r adroddiad hwn.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r meysydd allweddol sydd wedi cael eu hamlygu i ni, gydag astudiaethau achos ac enghreifftiau sy'n dangos ble mae pethau'n gweithio'n dda ar hyn o bryd neu gyfleoedd i weithio gyda phobl ifanc mewn gwahanol ffyrdd er mwyn eu helpu i wireddu eu breuddwydion cudd.





# HAWLIAU

## Ar hyn o bryd mae gan bobl ifanc sy'n gadael gofal

hawl i dderbyn y canlynol:

### Tai

- Gall **pobl ifanc sy'n byw mewn gofal maeth** barhau i fyw gyda'u gofalwyr maeth nes eu bod nhw'n 21 oed (neu 25 os ydyn nhw'n parhau ym myd addysg) o dan y cynllun Pan Fydda i'n Barod, cyhyd â bod cytundeb ar hynny.
- **Mae rhaid i Awdurdodau Lleol gynnig cefnogaeth i ymadawyr gofal gael mynediad i dai addas** nes eu bod nhw'n 21 oed, a dylai ymadawyr gofal gael "statws blaenoriaeth" ar restrau tai nes iddyn nhw gyrraedd 22 oed.
- Dylai **Grant Gadael Gofal o hyd at £2,000** gael ei dalu i helpu person ifanc i ymsefydlu yn eu cartref cyntaf.

### Addysg neu hyfforddiant

- **Gall pobl ifanc 19 oed a throsodd wneud cais** am Grant Dysgu'r Cynulliad ar gyfer Addysg Bellach. Mae hyn yn swm o hyd at £1,500 ar gyfer astudiaethau amser llawn, ond mae'n dibynnu ar lefel eich incwm cyffredinol.
- **Mae awdurdodau lleol yn darparu arian trwy grantiau neu "fwrsariaethau"**. Mae Bwrsariaeth Addysg Uwch yn £2,000 ond fel arfer mae symiau disgresynol eraill, gan gynnwys cefnogaeth gyda llety y tu allan i'r tymor.
- Mae **Benthyciadau a Grantiau Myfyrwyr** ar gael yn ogystal, ond mae'r rhain hefyd yn gysylltiedig â lefelau incwm.
- **Gall ymadawyr gofal 18-21 oed hawlio Cymhorthdal Incwm a Budd-dal Tai** os ydyn nhw'n astudio o dan lefel gradd, cyhyd â'u bod wedi cofrestru cyn eu pen-blwydd yn 19. Ni all

ymadawyr gofal o dan 18 oed wneud cais am y budd-daliadau hyn.

### Cefnogaeth

- **Rhaid i'r awdurdod lleol gadw mewn cysylltiad â'u hymadawyr gofal hyd at 21 oed** i gynnig cyngor a chefnogaeth – mae hyn yn digwydd trwy sicrhau bod gan bob person ifanc gynghorydd personol. Mae hyn yn cael ei estyn tan 25 oed os yw'r person ifanc yn dal mewn addysg/hyfforddiant.
- **Mae gan bobl ifanc rhwng 21 a 25 oed sydd wedi gadael addysg, ond sydd wedyn yn penderfynu eu bod am fynd i'r coleg neu'r brifysgol, hawl i dderbyn cefnogaeth ychwanegol i wneud hynny, ond bydd angen iddynt fynd at eu hawdurdod lleol i ofyn am yr help ychwanegol yma. Does dim trefniant awtomatig i ddarparu'r gefnogaeth yma, na dyletswydd barhaus ar yr awdurdod lleol i gadw mewn cysylltiad â nhw.**
- **Mae rhaid i awdurdodau lleol drefnu llety addas** ar gyfer ymadawyr gofal sy'n 16 neu 17 oed, ac mae'n rhaid iddyn nhw dalu am gelfi. Nid yw hyn ar gael yn awtomatig ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal yn 18 oed (na'r rhai sy'n gadael trefniant Pan fydda i'n Barod ar ôl cyrraedd 18 oed).
- **Rhaid bod gan bob awdurdod lleol bolisi ariannol clir a thryloyw yn ei le, yn nodi beth mae gan bobl ifanc hawl i'w dderbyn, pa amodau sy'n gysylltiedig â hynny, a sut bydd unrhyw daliadau'n cael eu gwneud.**

# BETH SY'N BWYSIG

YN ÔL POBL IFANC SY'N GADAEL GOFAL

CEFNOGAETH ARIANNOL I FYW'N ANNIBYNNOL

CEFNOGAETH EMOSIYNOL

CEFNOGAETH ADDYSG AC HYFFORDDIANT

## CYNGOR PERSONOL

YSGOL YN GWEITHIO'N DDA GYDA GWEITHWYR CYMDEITHASOL

## SESIYNAU CYMORTH

GWEITHWYR CYMDEITHASOL  
SY'N ONEST A SY'N DEALL

GWEITHGAREDDAU HWYL

CYMORTH GRŴP

CYMORTH TAI

## CYNGHORWYR PERSONOL



# PRYDERON

## POBL IFANC

NEB YN GWRANDO

UNIGRWYDD

TAI

GWEITHWYR GOFAL DDIM AR GAEL

ADDYSG

HYFFORDDIANT

CEFNOGAETH IECHYD MEDDWL

ARIAN

ANNIBYNIAETH

SWYDDI

CYMORTH AR ÔL 21

CYFATHREBIAD GWELL O  
AWDURDODAU LLEOL

RHYDDID



# BETH DDYLAI YMRWYMIAD CYMRU FOD I BOBL IFANC SY’N GADAEL GOFAL

Dylai pob person ifanc sy’n gadael gofal, lle bynnag mae nhw’n byw, derbyn y cefnogaeth canlynol.

## Cefnogaeth i bawb

■ Mae’r Comisiynydd o’r farn y dylai pob person ifanc sy’n gadael gofal fedru cael mynediad i gefnogaeth nes eu bod nhw’n 25 oed (p’un a ydyn nhw mewn addysg/hyfforddiant neu beidio). Mae hwn yn fater pwysig sy’n cael blaenoriaeth yn yr Alban<sup>2</sup> a Lloegr<sup>3</sup> hefyd. Mae pobl ifanc wedi dweud wrthyn ni droeon eu bod nhw’n gwerthfawrogi cefnogaeth barhaus cyngorydd personol maen nhw’n ymddiried ynddo/ynddi a chefnogaeth gydag amrywiaeth o wahanol bethau.

Ar 31 Mawrth 2016 roedd awdurdodau lleol yng Nghymru mewn cysylltiad â 465 o ymadawyr gofal oedd wedi cyrraedd 19 oed yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, sef 93%. Rydyn ni hefyd yn gwybod bod 280 o’r ymadawyr gofal hynny, 57% ohonyn nhw, mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant yn 19 oed<sup>4</sup>, ond dydyn ni ddim yn gwybod faint ohonyn nhw fydd yn dal yn y grŵp hwnnw o 21 oed ymlaen, ac felly faint ohonyn nhw fydd yn medru cael mynediad i gefnogaeth barhaus nes eu bod nhw’n 25. Mae gan bob person ifanc sy’n gadael gofal hawl i dderbyn cymorth i barhau i ymwneud â byd addysg, ond dydyn nhw ddim yn cael eu nodi’n hwylus nac yn cael cynnig y gefnogaeth honno’n rhagweithiol.

## Dyfyniadau gan bobl ifanc yn ein digwyddiadau yn 2016 -

“Pam mae 21 yn rhif hudol?”

“Pan Fydda i’n Barod ac addysg yw fy unig opsiwn”

Byddai cefnogaeth barhaus yn fy ngwneud i’n hapus nes mod i’n 25”

■ Mae gan rai awdurdodau lleol fforymau neu grwpiau trafod yn benodol ar gyfer ymadawyr gofal; gall yr hyn sydd o ddiddordeb neu’n destun pryder i rywun sy’n gadael gofal fod yn wahanol i’r pethau sy’n cael eu trafod gan blant sy’n dal i

fyw mewn gofal. Mae modd gofyn barn Fforymau Ymadawyr Gofal pan fydd yr awdurdod lleol yn bwriadu newid sut mae gwasanaeth yn cael ei gynnig ac wrth benderfynu pa faterion mae angen i’w staff dderbyn hyfforddiant yn eu cylch.

Fforwm penodol ar gyfer Ymadawyr Gofal yw un o chwe elfen graidd Rhaglen New Belongings Adran Addysg Llywodraeth y Deyrnas Unedig, i alluogi pobl ifanc i lywio penderfyniadau ynghylch newidiadau i wasanaethau a rhoi “llais a dylanwad cryf” i bobl ifanc.

Mae adroddiad Cyfnod 2 o fis Hydref 2016 yn cydnabod rhai o’r rhwystrau i gychwyn fforwm, ond mae hefyd yn amlygu awgrymiadau ac enghreifftiau o arfer da er mwyn rhoi pethau ar waith. Mae’r rhain yn cynnwys pryd a sut mae’r cyfarfodydd yn cael eu cynnal, a defnyddio cyfryngau cymdeithasol i gynllunio a chyfathrebu.

Mae hefyd enghreifftiau o gynrychiolwyr yn mynychu’r Bwrdd Rhianta Corfforaethol ac Uwch Swyddogion yn mynychu’r Fforwm Ymadawyr Gofal er mwyn clywed yn uniongyrchol a thrafod materion perthnasol.

Gall pobl ifanc hefyd gaffael sgiliau arweinyddiaeth a hyder trwy gyfranogi mewn Fforwm.

## Tai ac incwm

■ Mae symud i dŷ newydd wrth adael gofal yn gam mawr ac mae angen ei gynllunio’n iawn, gan gynnwys y person ifanc yn uniongyrchol i adlewyrchu eu dymuniadau. Pethau fyddai’n helpu gyda hyn yw -

- i. Bod Awdurdodau Lleol yn defnyddio Llwybr Tai Cadarnhaol Llywodraeth Cymru a’r Fframwaith Llety a Chymorth Ymadawyr Gofal a ddatblygwyd gan Barnardo’s<sup>5</sup> yn ganllaw ar gyfer pawb sy’n gweithio gyda’r person ifanc.



Mae DiGartref yn cefnogi 44 o bobl ifanc 16-24 oed yn Ynys Môn sy'n ddigartref ac sydd ag anghenion cymorth ychwanegol; mae llawer iawn o'r rhain yn ymadawyr gofal.

Bu'r Comisiynydd yn ymweld ag un o'u hosteli, a bu'r bobl ifanc yn trafod gymaint maen nhw'n gwerthfawrogi gwasanaethau lle maen nhw'n dod i nabod y gweithwyr ac yn gallu galw heibio yn ôl yr angen.

Mae diffyg tai fforddiadwy ar yr ynys ac mae cael hyd i ffordd trwy'r system tai ddryslud yn anodd i bobl ifanc, gan fod ceisiadau am dai yn anodd iawn eu cwblhau.

Soniodd pobl ifanc a gweithwyr fod y Gronfa Cymorth Disgresiynol wedi bod yn amhrisiadwy wrth ymsefydlu yn eu cartref eu hun, ond cronfa pan fydd popeth arall wedi methu yw hon. Mae'n destun pryder bod y bobl ifanc hyn wedi gorfod cymryd y cam hwn er mwyn gallu sefydlu eu cartref eu hun, yn ogystal â benthyciadau gan gwmnïau fel Wonga.

- ii. Mae angen sicrhau mwy o ffocws ar gaffael sgiliau annibyniaeth, gan gynnwys sgiliau ymarferol fel coginio, agor cyfrif banc a thalu biliau.

Mae Agored Cymru yn cynnig cymhwyster Lefel 2 wedi'i achredu mewn Sgiliau ar gyfer Annibyniaeth (Symud Ymlaen) sydd wedi cael ei ddatblygu mewn cydweithrediad â Chyngor Abertawe. Mae un darparwr gofal preswyl yn ne Cymru wedi bod yn dilyn y cwrs gyda'u pobl ifanc er mwyn achredu eu Rhaglen Byw'n Annibynnol (ILP) sy'n eu paratoi ar gyfer pontio allan o ofal.

Cwblhaodd un dysgwr y Dystysgrif trwy gyflawni pob un o'r 20 credyd yn ei hamser ei hun y tu allan i'r ysgol ac i raddau helaeth yn ystod gwyliau'r haf.

Ar gyfer y rhai sydd angen cam ar y ffordd i'r cymhwyster hwn, mae Dyfarniad Lefel 1 hefyd wedi cael ei greu.

Fe wnaeth y Comisiynydd gwrdd â phobl ifanc oedd wedi cwblhau'r cymhwyster a chyflwyno eu tystysgrifau. Fe ddwedson nhw wrthi hi eu bod nhw wedi dysgu sgiliau defnyddiol, gan gynnwys sut i reoli eu materion ariannol a chadw'n iach, ac mae wedi rhoi hyder i rai symud ymlaen i nodau addysg bellach.

Mae Llamau yn cynnig rhaglen ddysgu cyn-alwedigaethol o'r enw Learning 4 Life. Maen nhw'n gweithio gyda phobl ifanc y mae Llamau'n eu cefnogi i ddatblygu'r sgiliau byw'n annibynnol a chyflogadwyedd y mae llawer o bobl yn eu cymryd yn ganiataol. Mae Learning 4 Life yn cefnogi pobl ifanc rhwng 16 a 25 oed nad ydynt ar hyn o bryd mewn hyfforddiant, addysg na chyflogaeth.

Nôd Learning 4 Life yw mynd i'r afael â'r rhwystrau mae rhai pobl ifanc agored i niwed yn eu hwynebu trwy roi iddyn nhw'r camau cyntaf tuag at wella Sgiliau Sylfaenol, sgiliau cyflogadwyedd, ac yn bwysicaf oll, hyder.

Trwy'r rhaglen Learning 4 Life, mae Llamau yn ddarparwr cymeradwy ar gyfer cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru City & Guilds ym meysydd Cymhwyso Rhif, Cyfathrebu a TGCh. Mae Learning 4 Life yn gweithredu o 11 canolfan, naw ohonynt yn ne Cymru, a dwy yng ngogledd Cymru.

- iii. Dylai fod gan bob person ifanc hawl i dderbyn gwybodaeth glir am yr arian a'r grantiau y gallan nhw eu cyrchu wrth adael gofal, a dylai'r rheolau ar gyfer gwario'r arian fod yr un fath i bawb. Ar hyn o bryd gall pob awdurdod lleol gynnig gwahanol symiau ar ffurf grant wrth sefydlu cartref ar gyfer person ifanc. Mae pobl ifanc a'u cynghorwyr personol wedi dweud wrthyn ni eu bod nhw'n cael trafferth cael hyd i wybodaeth a pholisïau ariannol ar gyfer eu hawdurdod lleol. Mae diffyg tryloywder yn

y cyswllt hwn, gan i ni glywed bod llawer o bolisïau ariannol yn ddisgresiynol, ac nid oedd yn hawdd cael hyd i'r wybodaeth yma ar-lein pan fuon ni'n chwilio ein hunain. Mae pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol hefyd wedi amlygu nad yw'r 'rheolau' yr un fath ym mhob man, felly mewn rhai ardaloedd gallwch chi wario arian ar beiriant golchi, ond mewn ardal arall fyddai hynny ddim yn cael ei ystyried yn eitem "hanfodol" ar gyfer pecyn cartref cyntaf.

Mae llawer o bobl ifanc yn cael anhawster wrth gyrchu rhai mathau o dai, os ydyn nhw wedi cael lleoliad aflwyddiannus o'r blaen, neu os oes opsiynau cyfyngedig ar gael sy'n addas i'w hanghenion. Mae'r sector rhentu preifat yn aml yn cael ei awgrymu fel dewis arall, ond mae llawer o landlordiaid yn amharod i dderbyn person ifanc oherwydd pryderon ynghylch talu'r rhent.

Yng Nghonwy, mae'r polisi Rhianta Corfforaethol yn datgan y bydd yr awdurdod lleol yn llofnodi i warantu tenantiaeth person ifanc. Llond dwrn o bobl ifanc sydd dan sylw bob blwyddyn, felly dyw hyn ddim yn ymrwymiad mawr, ond yn aml gall fod yn unig opsiwn os yw person ifanc i gael byw'n annibynnol. Mae hon yn enghraifft dda o elfen 'Rianta' wirioneddol rhianta corfforaethol.

Mae fframwaith cefnogi Barnardo's yn amlygu Cyngorau Torfaen ac Abertawe am eu "canolbwyntiau" sy'n golygu bod swyddogion digartrefedd neu dai yn gweithio yn yr un man â chynghorwyr personol a gweithwyr cefnogi, gan roi mynediad i gyngor a chymorth arbenigol ym maes tai, yn ogystal â chaniatáu cydweithio a blaengynllunio os bydd perygl y gallai llety fethu.

Roedd cefnogaeth "galw heibio" hefyd yn bwysig i'r bobl ifanc y buon ni'n cwrdd â nhw. Mae'r Comisiynydd wedi ymweld â chanolbwynt Torfaen ac wedi clywed gan bobl ifanc yno sut mae'n eu helpu nhw.

■ Mae angen i bobl ifanc gael help i wybod pa filiau mae angen iddyn nhw eu talu, pryd a faint fydd y gost, gan na fyddan nhw wedi bod yn gyfrifol am wneud hynny yn ystod eu cyfnod mewn gofal. Mae llawer o bobl ifanc yn gweld eu hincwm yn disgyn yn sylweddol pan eu bod yn symud o ofal maeth neu ofal preswyl i fyw yn annibynnol. Mae llawer yn byw ar ond £8 y dydd, ac mae disgwyl iddyn nhw dalu am eu holl anghenion gyda'r arian yma gan gynnwys dillad, trafniadaeth a biliau. Mae Strategaeth Cynhwysiad Ariannol Cymru 2016 yn adlewyrchu'r ffaith bod angen i ymadawyr gofal gael mynediad i adnoddau ar-lein neu eraill i helpu gyda chyllidebu a materion ariannol. **Mae fy swyddfa i wedi datblygu Ap o'r enw Fy Nghynllunydd, sy'n cynnwys dull cyfrifo cyllideb, yn ogystal â gwybodaeth am hawliau a'r pethau mae hawl i'w derbyn.**<sup>6</sup> Y bil misol mwyaf, o bell ffordd, yw treth y cyngor. Mae Llywodraeth Cymru yn edrych ar beth allai gael ei wneud i wneud treth y cyngor yn decach a dylai pobl ifanc sy'n gadael gofal fod yn rhan annatod o'r ystyriaethau hynny.

Mae'r Rhaglen *New Belongings* sydd yng ngofal yr Adran Addysg (DfE) yn Lloegr yn amlygu barn ymadawyr gofal bod Treth y Cyngor yn "bil sy'n anodd iddynt i dalu". Mae'r peilot yn awgrymu nad yw eithriad cyffredinol yn deg o bosib ar grwpiau bregus eraill, ond y byddai pecyn cefnogaeth ariannol dryloyw i ymadawyr gofal, gyda mewnbwn ganddyn nhw eu hunain, "yn debyg i'r cefnogaeth gall rhieni neu gofalywyr cynnig i'w plant eu hun mewn amgylchiadau tebyg"<sup>7</sup>

Mae gogledd Somerset wedi penderfynu na ddylai fod rhaid i ymadawyr gofal yno dalu Treth y Cyngor nes eu bod nhw'n cyrraedd 22 oed. Mae ganddyn nhw hefyd lawer o wybodaeth glir ar eu gwefan ynghylch polisiâu ariannol.<sup>9</sup>

Cafodd y mater yma ei gydnabod hefyd yn ymchwiliad Cymunedau a Llywodraeth Leol Llywodraeth y Deyrnas Unedig i Ddigartrefedd, a glywodd dystiolaeth bod 24 y cant o bobl ddigartref wedi bod mewn gofal.<sup>8</sup>

■ Mae'r rheolau ynghylch pwy sy'n gallu hawlio budd-daliadau a faint maen nhw'n gallu ei hawlio yn gymhleth iawn, a does dim un man y gall person ifanc fynd iddo i gael yr wybodaeth hon. Er mai Llywodraeth y Deyrnas Unedig sy'n pennu'r rheolau budd-dal, mae'n bwysig bod pobl ifanc ledled Cymru yn gallu cael hyd i wybodaeth glir ynghylch y pethau gallan nhw eu hawlio, sut mae cyflwyno hawliad ac â phwy dylen nhw gysylltu i gael cymorth neu gyngor. Dylai gwybodaeth ddiweddar gael ei chyhoeddi ynghylch y rheolau, fel bod pobl ifanc yn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus ynghylch eu dyfodol, ar y cyd â'u cynghorwyr personol.

■ Dylai adrannau gwasanaethau cymdeithasol, tai ac addysg gydweithio â'i gilydd i helpu i gynllunio symudiad person ifanc i fyw'n annibynnol. Ni fydd unrhyw unigolyn yn arbenigwr ar yr holl faterion hyn, felly mae angen i bawb gydweithio i helpu'r person ifanc i wneud y penderfyniadau mawr hyn gyda'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt i wneud hynny.

*Dim ond chwech o'r awdurdodau lleol a ymatebodd i'n harolwg cenedlaethol atebodd y cwestiwn "Ydy prentisiaid neu hyfforddeion yn gallu hawlio budd-daliadau, ac os felly, pa fudd-daliadau mae ganddyn nhw hawl i'w derbyn?"*

O'r chwech, roedd dau yn ansicr beth yn union oedd ar gael na beth oedd y meini prawf, gan nodi'n syml "budd-dal tai".

Mae gan bobl ifanc hefyd broblemau gyda diffyg gofal plant er mwyn mynychu cyrsiau fel cyrsiau 12 wythnos mynediad at waith. Weithiau bydd canolfannau gwaith yn talu am ofal plant, ond dyw'r bobl ifanc hyn ddim bob amser ar y budd-daliadau "iawn" (h.y. dydyn nhw ddim yn derbyn lwfans ceiswyr gwaith).

Mae Tai a Materion Ariannol yn feysydd a godwyd yn gyson fel rhai lle mae'n anodd cael gwybodaeth i bobl ifanc o adrannau heblaw'r gwasanaethau cymdeithasol, gan nodi nad yw adrannau bob amser yn edrych ar sefyllfaoedd ac anghenion ymadawyr gofal yn yr un ffordd. Mae Rhianta Corfforaethol yn sicr yn methu yng nghyswllt ymadawyr gofal mewn unrhyw sefyllfa lle mae tîm gadael gofal wedi gweithio'n galed i gael hyd i lety addas ar gyfer person ifanc, ond bod y person ifanc dan sylw, o fewn ychydig fisoedd, yn derbyn llythyron bygythiol gan yr adran dai oherwydd ôl-ddyledion rhent neu dreth y cyngor. Dylai adrannau'r Cyngor fod yn gwirio statws ac opsiynau cefnogaeth y bobl ifanc hyn gyda'i gilydd cyn anfon y llythyron hyn, sy'n gallu bod yn destun pryder mawr i berson ifanc.

## Cyfleoedd

■ Dylai Awdurdodau Lleol weithredu fel Busnesau Teuluol mawr o ran eu rôl fel Rhieni Corfforaethol ar bobl ifanc sy'n derbyn gofal. Fel unrhyw fusnes teuluol, dylen nhw fod yn barod i gynnig hyfforddiant a chyfleoedd am swyddi yn eu meysydd cyflogaeth niferus, gan gynnwys gweinyddiaeth, parciau, meithrinfeydd, gwaith saer, gofal cymdeithasol a thai. Ar ben hynny, dylai POB adran yn yr awdurdod lleol ddeall pa gefnogaeth sydd ei hangen ar berson ifanc sy'n gadael gofal a beth gallan nhw ei wneud i helpu gyda hynny. Dyna ystyr ymarferol rhianta corfforaethol, ac mae gan bob adran a chynghorydd rôl i'w chwarae, boed hynny wrth wneud penderfyniadau a fydd yn helpu neu gynnig gwasanaeth neu gefnogaeth yn uniongyrchol i berson ifanc yn eu hardal sy'n gadael gofal.

Yn ddiweddar, mae Cyngor Caerffili wedi sefydlu cynllun newydd i roi hyfforddiant i ymadawyr gofal, gyda chefnogaeth y tîm Rheoli Corfforaethol, ac mae cyflwyniadau ar waith ar hyn o bryd i bob maes gwasanaeth ar draws y cyngor er mwyn rhannu'r wybodaeth hon.

Bydd y Cynllun Cynnydd yn darparu profiad gwaith o fewn y Cyngor fel rhan o'r rhaglen genedlaethol i Hyfforddeion sy'n cael ei hariannu gan ESF, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru. Bydd amrywiaeth eang o leoliadau'n cael eu cynnig i bobl ifanc 16-18 oed ar draws detholiad o adrannau'r Cyngor, ac ar ben hynny, bydd y bobl ifanc yn dilyn cymhwyster Lefel 1 gyda'r darparwr. Bydd y rhai sy'n bresennol yn cael lwfans wythnosol o £35-£50 a chostau teithio. Ar ddiwedd y lleoliad, bydd y Cyngor yn ymdrechu i ddarparu prentisiaeth neu gyflogaeth, ond lle nad yw hynny'n bosibl, bydd cefnogaeth barhaus ar gael trwy'r darparwr a/neu Fentor Ieuenctid o dîm cyflogaeth Cymunedau yn Gyntaf.

Bydd y garfan gyntaf o hyfforddeion yn datblygu deunyddiau cyhoeddusrwydd i'w dosbarthu'n ehangach, a bydd modd seilio'r rheiny ar eu profiadau unigol o'r cynllun.



Yn Sir Fynwy, mae'r ddau hyfforddai sydd â phrofiad o ofal sy'n cael eu cyflogi ar hyn o bryd wedi cael eu gwneud yn gyfrifol am sefydlu a chynnal grŵp i ymadawyr gofal ac un i blant sy'n derbyn gofal. Mae disgwyl iddyn nhw drefnu bod y grwpiau'n cwrdd yn rheolaidd. Mae hyn yn rhoi rheolaeth uniongyrchol iddyn nhw ar y grŵp, yn ogystal â sgiliau ychwanegol o ran trefnu a chynnal y sesiynau.

■ O'n harolwg fe ddysgon ni fod 11 o awdurdodau lleol ledled Cymru eisoes yn gwarantu y bydd plentyn mewn gofal neu berson ifanc sy'n gadael gofal yn cael cynnig cyfweiliad ar gyfer cynllun hyfforddiant neu brentisiaeth yn fewnol os bydd yn cyflwyno cais. Ar ben hynny, dywedodd awdurdod arall wrthyn ni eu bod nhw bob amser yn rhoi adborth ar y cyfweiliad os na fydd y person ifanc yn cael y swydd. Mae saith awdurdod lleol yn neilltuo nifer penodol o lefydd ar gyfer ymadawyr gofal bob blwyddyn, i wneud yn siŵr eu bod nhw'n gallu cael amrywiaeth o gyfleoedd.

Nid pethau yw'r rhain a fydd yn costio llawer o arian i awdurdodau lleol, ond byddant yn gam pwysig tuag at gynnig cyfle cychwynnol neu droed yn y drws i berson ifanc sy'n gadael gofal neu blentyn sydd yn eu gofal. Cyhyd â bod rheolau a meini prawf cymhwyster y cynllun yn cael eu nodi'n glir, mae hon yn ffordd syml a theg o gynnig peth cefnogaeth ychwanegol.

■ Gall cysylltiadau â busnesau lleol fod yn eithriadol o werthfawr i estyn yr amrywiaeth o leoliadau sydd ar gael.

Mae Conwy wedi creu cysylltiad â Venue Cymru, canolfan theatr a chynadledda yn eu hardal, ar gyfer cyfleoedd profiad gwaith.

Cynhelir sesiynau gwybodaeth yn Theatr Venue Cymru yn Llandudno, yn hysbysebu'r cynlluniau sydd ar gael. Roedd lleoliadau yn y Ganolfan Hamdden leol hefyd wedi'u llunio'n benodol ar gyfer plant mewn gofal ac ymadawyr gofal, ac yn cael eu marchnata'n uniongyrchol iddyn nhw. Buon nhw hefyd wedyn yn dylunio cynnig tebyg yn Venue Cymru, fel bod amrywiaeth o brofiadau ar gael, megis arlwyyo, bwyty, blaen y tŷ, digwyddiadau a swyddi technegol. Mae'r lleoliadau wedi'u llunio i fod yn addas i anghenion pobl ifanc unigol. Roedd gan un dyn ifanc ddiddordeb mewn lleoliad gwaith arlwyyo, a dyna ddilynodd e. Yna cefnogodd Conwy ef i wneud cais am rôl gyda'r Cyngor a llwyddodd i sicrhau swydd barhaol yn Venue Cymru.





■ Dylid rhoi'r help ychwanegol sydd angen ar bobl ifanc i wneud cais am leoliad neu swydd, neu i gyrraedd yno bob dydd. Mae llawer o bethau y gall staff awdurdod lleol a chynghorwyr personol eu gwneud i helpu gyda hyn. Soniodd naw Awdurdod Lleol a ymatebodd i'n harolwg wrthyn ni am wahanol bethau maen nhw eisoes yn gallu eu cynnig, gan gynnwys -

■ hyfforddiant ar gyfer cyfweiliadau, ac adborth

■ lwfansau dillad (dillad trwsiadus ar gyfer cyfweiliad neu ddillad gwaith fel esgidiau diogelwch os bydd angen)

■ lwfansau ar gyfer offer neu gyfarpar arall angenrheidiol i wneud y gwaith

■ tocynnau teithio neu arian at gostau teithio

■ arian ar gyfer gwersi gyrru os yw hynny'n hanfodol ar gyfer y swydd.

■ Mae ein hymgyngoriadau a chanlyniadau ein harolygon wedi dweud wrthyn ni nad yw prentisiaethau bob amser yn cael eu trafod na'u cynnig i bobl ifanc fel opsiwn gyrfa cadarnhaol. Gall ysgolion, ymgynghorwyr gyrfaedd a gofalywyr neu eraill sy'n gweithio gyda phobl ifanc i gyd chwarae rôl o ran helpu i newid hyn, ond mae angen gwybodaeth glir ynghylch sut mae gwneud cais, y cyfraddau talu, yr oriau i'w gweithio a'r gefnogaeth sydd ar gael i wneud hynny. Bydd angen i bobl ifanc sy'n byw'n annibynnol am y tro cyntaf gyfrifo'u cyllideb a'u hopsiynau cludiant mewn ffordd wahanol i'r rhai sy'n dal i fyw yng nghartref y teulu.





Yn Rhondda Cynon Taf, yr enw ar gyflogaeth, addysg a hyfforddiant i blant sy'n derbyn gofal yw Step in the Right Direction, fel rhan o'r cynllun Care 2 Work. Rhaglen 2 flynedd o hyfforddiant yw hon, i bobl ifanc 16-21 oed sy'n byw mewn gofal ac yn gadael gofal yn Rhondda Cynon Taf. Fel rhan o'i rôl fel rhiant corfforaethol, mae'r Cyngor wedi cydnabod pwysigrwydd cynnig cyfle i gael profiad o gyflogaeth a hyfforddiant i bobl ifanc sy'n gadael gofal.

Bob blwyddyn, mae 6 hyfforddai'n ymuno â'r cynllun ac yn cael cyfle (yn amrywio o 6 wythnos i 18 mis) mewn amrywiaeth o adrannau'r Cyngor a lleoliadau cyflogaeth preifat. Mae lleoedd yn cael eu cynnig mewn amrywiaeth eang iawn o adrannau, gan gynnwys addysg, priffyrdd, y blynyddoedd cynnar, parciau, ysgolion cynradd, Adnoddau Dynol, cynllunio ac adfywio, gwasanaethau dydd a gofal preswyl, gofal strydoedd a'u glanhau, cyllid, diogelwch ac etholiadau.

Dan reolaeth y Cydlynnydd Hyfforddeion, gyda chefnogaeth Gweithiwr ôl-ofal penodedig a than oruchwyliaeth Rheolwr Lleoliad o ddydd i ddydd, mae'r bobl ifanc hyn yn cael yr holl gefnogaeth angenrheidiol i gaffael y profiad gwaith a'r hyfforddiant gofynnol i'w helpu i sicrhau cyflogaeth amser llawn ar ddiwedd y rhaglen. Dyma'r manteision a nodwyd:

#### ■ MANTEISION I SEFYDLIADAU/BUSNESAU

- Datblygu sgiliau, gwybodaeth a phrofiad staff presennol trwy fentora
- Adnodd staff ychwanegol i gefnogi eich adran/busnes
- Datblygu pobl ifanc yn ddarpar gyflogeion hir dymor
- Mwy o enw da fel cyflogwr
- Tystiolaeth o ymrwymiad i gyfrifoldebau cymdeithasol
- Cefnogi llwybr gyrfa pobl ifanc, fel eu bod yn gallu cyfrannu'n fwy cadarnhaol i gymdeithas

#### ■ MANTEISION I BOBL IFANC

- Mwy o hyder a hunan-barch
- Codi lefelau sgiliau a dyheadau
- Symud ymlaen i gyflogaeth/addysg bellach
- Caffael sgiliau ymarferol/cymwysterau
- Mwy o foeseg gwaith a ffydd ynddynt eu hunain
- Mwy o sefydlogrwydd ariannol
- Mwy o annibyniaeth

# BETH SYDD ANGEN NEWID/ BETH SYDD ANGEN DIGWYDD NESA

Er bod sawl enghraifft da o gefnogaeth yng Nghymru, fel sydd wedi eu tanlinellu yn yr adroddiad hwn, dylai'r canlynol bod ar gael i bawb, lle bynnag mae nhw'n byw

## Cefnogaeth i bawb

■ Dylai pob person ifanc sy'n gadael gofal fedru cael mynediad i **gefnogaeth hyd at 25 oed** (p'un a ydyn nhw mewn addysg/hyfforddiant neu beidio).

■ **Dylai awdurdodau lleol a gofalwyr roi mwy o ffocws ar ddatblygu sgiliau annibyniaeth pobl ifanc**, gan gynnwys sgiliau ymarferol fel coginio, agor cyfrif banc a thalu biliau.

■ Dylai adrannau gwasanaethau cymdeithasol, tai ac addysg i **gyd weithio gyda'i gilydd** i helpu i gynllunio symudiad person ifanc at fyw'n annibynnol, yn unol â'r dulliau gweithio o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

■ Dylai awdurdodau lleol ystyried sefydlu **fforymau neu grwpiau trafod yn benodol ar gyfer ymadawyr gofal**; gall yr hyn sydd o ddiddordeb neu sy'n destun pryder i ymadawyr gofal fod yn wahanol i'r pethau sy'n cael eu trafod gan blant sy'n dal i fyw mewn gofal. Gall yr awdurdod lleol ofyn barn y Fforymau Ymadawyr Gofal pan fydd bwriad i newid sut mae gwasanaeth yn cael ei gynnig, ac wrth benderfynu ar ba faterion mae angen i staff gael hyfforddiant. Maen nhw hefyd yn gallu rhoi cefnogaeth cyfoedion i'w gilydd.

## Tai ac Incwm

■ Dylai awdurdodau lleol fod yn defnyddio Llwybr Tai Cadarnhaol Llywodraeth Cymru a'r **Fframwaith Llety a Chymorth i Ymadawyr Gofal** a ddatblygwyd gan Barnardo's yn ganllaw ar gyfer pawb sy'n gweithio gyda'r person ifanc.

■ Dylai fod gan bob person ifanc sy'n gadael gofal becyn cyson, tryloyw o gefnogaeth ariannol, wedi'i seilio ar **wybodaeth glir ynghylch yr arian a'r grantiau sydd ar gael iddyn nhw wrth adael gofal** a dylai'r rheolau ynghylch gwario'r arian

fod yr un fath i bawb. Dylai gwybodaeth am faterion ariannol fod yn glir, yn dryloyw, ac ar gael yn hwylus. Er mai Llywodraeth y Deyrnas Unedig sy'n pennu'r rheolau budd-dal, mae'n bwysig bod pobl ifanc ledled Cymru **yn cael mynediad i wybodaeth glir ynghylch y budd-daliadau y gallan nhw eu hawlio, sut mae cyflwyno hawliad, ac â phwy dylen nhw gysylltu i gael cefnogaeth neu gyngor.**

■ Mae Llywodraeth Cymru yn edrych ar **beth allai gael ei wneud i sicrhau bod Treth y Cyngor yn decach i bobl yng Nghymru. Dylai pobl ifanc sy'n gadael gofal gael blaenoriaeth yn y gwaith yma, a dylid ystyried cynlluniau sy'n cael eu defnyddio yn Lloegr**, fel caniatáu cyfnod cychwynnol o amser pan nad oes angen talu neu pryd mae swm gostyngol i'w dalu.

## Cyfleoedd

■ Dylai Awdurdodau Lleol fod fel **Busnesau Teulu mawr** wrth weithredu fel Rhieni Corfforaethol i bobl ifanc sy'n derbyn gofal. Fel unrhyw fusnes teuluol, dylen nhw fod yn **barod i gynnig mynediad wedi'i deilwra i'r holl blant yn eu gofal i gyfleoedd hyfforddi a swyddi yn eu meysydd cyflogaeth niferus, gan gynnwys gweinyddiaeth, parciau, meithrinfeydd, gwaith saer, gofal cymdeithasol a thai.**

■ **Mae angen i bobl ifanc gael cynnig cefnogaeth yn rhagweithiol gan ofalwyr a gweithwyr cymorth**, i'w helpu nhw i baratoi ar gyfer cynlluniau hyfforddi a chael mynediad iddyn nhw. Dylid datblygu cysylltiadau amhrisiadwy â busnesau lleol a phartneriaid, yn ogystal â chymorth paratoi a dillad ar gyfer cyfweiliadau ac unrhyw offer neu gyfarpar sy'n angenrheidiol i gyflawni swydd.

# BETH YW'R CAMAU NESAF?

**Er mwyn gweithredu y gwelliannau sydd wedi eu awgrymu, bydd y Comisiynydd Plant yn:**

- Ymweld â phob awdurdod lleol yng Nghymru i drafod beth maen nhw'n ei gynnig ar hyn o bryd i gefnogi ymadawyr gofal i gyflawni eu breuddwyd cudd a beth maen nhw'n bwriadu ei roi ar waith.
- Monitro'r cynnydd mae'r awdurdodau lleol yn ei wneud.
- Monitro cynnydd Llywodraeth Cymru wrth gefnogi Ymadawyr Gofal.
- Bydd hi'n parhau i wrando ar ymadawyr gofal ynghylch eu profiadau ac a ydyn nhw'n cael yr help angenrheidiol.

**Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau positif yn ei ymrwymiad i bobl ifanc mewn gofal yn barod trwy ffurfio Grŵp Cyngori'r Gweinidog. Mae'r Llywodraeth hefyd wedi cytuno i weithio tuag at:**

- Sicrhau bod pobl ifanc sy'n gadael gofal preswyl yn cael lefelau cyfatebol o gefnogaeth i'r rhai sy'n gadael gofal maeth.
- Sicrhau nad oes unrhyw berson ifanc yn gorfod gadael llety ar ei benblwydd yn 18 os ydynt yng nghanol blwyddyn bwysig o astudio megis Lefel A.
- Sicrhau hawl pawb sy'n gadael gofal, hyd at 25 oed, i gael Cynghorydd Personol.

- Gwarantu cefnogaeth ariannol i ymadawyr gofal sy'n mynd i addysg uwch.
- Cyhoeddi gwybodaeth glir ynghylch y pethau y gall ymadawyr gofal eu hawlio trwy'r systemau treth a budd-daliadau.
- Cael hyd i ffyrdd newydd o leihau tlodi ymhlith ymadawyr gofal.

## **Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) wedi ymrwymo i:**

- Annog holl aelodau awdurdodau lleol, fel Rhieni Corfforaethol, i ddarparu cyfleoedd hyfforddiant a phrentisiaeth ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac ymadawyr gofal, ym 'musnes y teulu'.
- Cefnogi'r gwaith o gynyddu ymwybyddiaeth, fel bod pob Awdurdod Lleol yn gallu diwallu anghenion tai ymadawyr gofal, gan ddefnyddio canllawiau Llywodraeth Cymru a Barnardo's.
- Gweithio gyda phob Awdurdod Lleol i sicrhau bod ymadawyr gofal yn derbyn gwybodaeth glir a'r gefnogaeth ariannol y mae hawl ganddynt i'w derbyn wrth ymsefydlu yn eu cartref cyntaf.
- Annog pob Awdurdod Lleol i gynnwys ymadawyr gofal yn weithredol wrth ddatblygu a monitro'r gefnogaeth maen nhw'n eu cynnig.
- Cael hyd i ffyrdd newydd o leihau tlodi ymhlith ymadawyr gofal trwy archwilio cymhorthdal teithio a chefnogaeth ychwanegol fel lwfansau ar gyfer dillad neu offer sy'n angenrheidiol i fod yn hyfforddai.

Hoffwn ddiolch i'r pobl ifanc a'r gweithwyr proffesiynol a chyfrannodd i'r adroddiad hwn; roedd eich mewnbwn yn hollbwysig.

**Comisiynydd Plant Cymru**

**Ty Ystumllwynarth**

**Ffordd Phoenix**

**Llansamlet**

**Abertawe**

**SA7 9FS**

**01792 765600**

**post@complantcymru.org.uk**

**facebook.com/childcomwales**

**@complantcymru (Trydar)**

TROEDNODIADAU

<sup>1</sup><http://gov.wales/docs/statistics/2016/161018-adoptions-outcomes-placements-children-looked-after-local-authorities-2015-16-revised-en.pdf>

<sup>2</sup><http://www.gov.scot/Resource/0048/00483676.pdf>

<sup>3</sup>[https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/535899/Care-Leaver-Strategy.pdf](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/535899/Care-Leaver-Strategy.pdf)

<sup>4</sup><http://gov.wales/docs/statistics/2016/161018-adoptions-outcomes-placements-children-looked-after-local-authorities-2015-16-revised-en.pdf>

<sup>5</sup>[http://www.barnardos.org.uk/16905\\_su\\_care\\_leavers\\_accom\\_and\\_support\\_framework\\_english\\_digital\\_\\_3\\_.pdf](http://www.barnardos.org.uk/16905_su_care_leavers_accom_and_support_framework_english_digital__3_.pdf)

<sup>6</sup>Gallwch lawrlwytho Ap Fy Nghynllunyydd yma <https://www.complantcymru.org.uk/ein-gwaith/adnodau/>

<sup>7</sup>[https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/562139/DFE-RR616-New\\_Belongngs\\_programme\\_evaluation.pdf](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/562139/DFE-RR616-New_Belongngs_programme_evaluation.pdf)  
tudalen 64

<sup>8</sup>[http://www.publications.parliament.uk/pa/cm201617/cmselect/cmcomloc/40/4009.htm#\\_idTextAnchor046](http://www.publications.parliament.uk/pa/cm201617/cmselect/cmcomloc/40/4009.htm#_idTextAnchor046)

<sup>9</sup><http://www.somerset.gov.uk/childrens-services/care-and-chaperoning/leaving-care/>

Mae'r pobl ifanc yn yr adroddiad hwn yn modelau o Gymru